Dear Customer

**Pentlepoir Post Office®**
**Pentlepoir, Saundersfoot, SA69 9BJ**

**Branch Temporary Closure**

We are writing to inform you that, regrettably, following the resignation of the postmaster and the withdrawal of the premises for Post Office use, the above branch will be closing temporarily on Monday 16 July 2018.

Looking after a nationwide network of Post Office services, we have a responsibility to make sure every service makes the best possible use of resources, while ensuring that customers can still access our products and services. I can assure you that we will continue to work to find a solution that will provide a Post Office service to the community.

If you have any questions you would like to raise about this matter, please write to me via the National Consultation Team at the address shown at the end of the letter. Please note that your comments will not be kept confidential unless you expressly ask us do so by clearly marking them "In Confidence".

Any future changes to service provision would be handled in line with our Principles of Community Engagement. You can find more information about these Principles at the end of this letter.

It would be helpful if you could share this information with any local groups or organisations that you know within the community, for example on noticeboards, local charities and in GP surgeries, to help our customers and your constituents understand what is happening to the Post Office in the local community. If you would like a supply of posters please let us know.

We would like to apologise for the inconvenience the temporary closure may cause. We hope that our customers will continue to use the Post Office and full details of alternative Post Office services in the area are shown at the end of this letter.

We will write to you again once I have any news about our plans for future service provision.

Yours sincerely

*Jeremy Kiff*

**Jeremy Kiff**
**Area Network Change Manager**

How to contact us:
comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

Post Office Limited is committed to protecting your privacy. Information about how we do this can be found on our website at postoffice.co.uk/privacy

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited

PostOffice.co.uk

***The Principles of Community Engagement have been agreed with Citizens Advice, Citizens Advice Scotland and the General Consumer Council for Northern Ireland; the independent statutory consumer watchdogs.***

A full copy of these Principles are available on postofficeviews.co.uk

*What to do if you feel these Principles haven't been followed:*

Please get in touch so we can investigate your complaint. We'll explain in our reply whether we believe we have followed our Principles of Community Engagement and will provide you with the contact details for the relevant Consumer watchdog (Citizens Advice, Citizens Advice Scotland or the Consumer Council for Northern Ireland) if you're not satisfied with our response.

**Alternative branches:**

**Kilgetty Post Office**
Carmarthen Road
Kilgetty
SA68 0UF

**Opening times**

| | |
|---|---|
| Monday | 09:00 – 17:30 |
| Tuesday | 09:00 – 17:30 |
| Wednesday | 09:00 – 17:30 |
| Thursday | 09:00 – 17:30 |
| Friday | 09:00 – 17:30 |
| Saturday | 09:00 – 17:30 |

**Services**
The same range of services will continue to be available with the addition of Car tax, a comprehensive range of Travel Money, Passport Check & Send and On Demand Travel Insurance.

**Access and facilities**
This branch has a wide door and level access at the entrance.

**Transport/parking**
Roadside parking is available nearby. There are local buses serving the surrounding area.

**Distance**
This Post Office service is located approximately 1.2 miles away from Pentlepoir branch, along varied terrain.

**Saundersfoot Post Office**
The Strand
Saundersfoot
SA69 9ES

**Opening times**

| | |
|---|---|
| Monday | 07:30 – 22:30 |
| Tuesday | 07:30 – 22:30 |
| Wednesday | 07:30 – 22:30 |
| Thursday | 07:30 – 22:30 |
| Friday | 07:30 – 22:30 |
| Saturday | 07:30 – 22:30 |
| Sunday | 08:00 – 22:30 |

**Services**
The same range of services will continue to be available with the addition of Car tax and Dollar Travel Money, however excluding National Lottery.

**Access and facilities**
This branch has a wide door and level access at the entrance.

**Transport/parking**
Time-restricted roadside parking is available nearby. There is a frequent bus service available between Pentlepoir branch and this Post Office service. The nearest bus stop is 180 metres away.

**Distance**
This Post Office service is located approximately 1.8 miles away from Pentlepoir branch, along varied terrain.

**To get this information in a different format, for example, in larger print, audio or braille call 03452 66 01 15 or Textphone 03457 22 33 55.**

# Principles of Community Engagement on changes to the Post Office network

## What are the Principles of Community Engagement?

The Principles of Community Engagement are guidelines we follow. They explain how and when we will tell you about changes to your local Post Office services. We've worked with the independent statutory consumer watchdog on these guidelines, which in Great Britain is Citizens Advice and Citizens Advice Scotland, and in Northern Ireland it is the Consumer Council.

## What kind of situations does it include?

Information about when we're planning to move or close one of our branches or outreach services. This also covers information about when a branch has suddenly closed unexpectedly because of something like a flood or fire.

## Who do we tell?

You and your locally elected representatives (such as MPs, local authorities or councils).

## How will we tell you what's happening?

If there's a change – like opening a new branch, a temporary closure or a change in opening times - we'll let you know by putting up posters in the Post Office. If the plan is to move a Post Office or permanently close one then we'll put up posters and hand out letters in the branch as well as writing to your representatives. We'll issue a press release and the relevant information will be easy to find on our website.

## How long will it take?

We'll let you know about any changes as soon as we possibly can. Sometimes, change is out of our control, but we'll try to keep you as up-to-date about what's happening as we can. We try to make sure you have four weeks' notice before anything happens and if we are going to re-open a temporarily closed branch in a new location or franchise a directly managed branch, in its existing site, we will ask for your feedback. If we're going to permanently relocate or close a Post Office there will be a 'consultation period' which lasts six weeks. This means that you have time to share your views with us.

## It's easy to let us know what you think

We want to hear what you and your representatives think about change. To make sure it's easy for you to let us know, all of our contact details can be found on all our posters and letters. You can contact us via our Consultation Hub or email, letter or phone.

## How will you find out about the final plans?

We'll let you know in as many ways as possible. There will be posters in branch or locally, letting customers know what's going on. We'll also write to local representatives and the information will be on our website. If you let us know what you think we'll make sure you know about our final plans either on our Consultation Hub or by writing to you, or in branch.

## What can you do if you think we haven't followed the Principles of Community Engagement?

If you don't think we've followed the Principles, please contact us and let us know why.

To have a look at the full Principles of Community Engagement, please see our website at postofficeviews.co.uk

Annwyl Cwsmer

**Swyddfa Bost Pentlepoir**
**Pentlepoir, Saundersfoot, SA69 9BJ**

**<u>Cau’r Gangen Dros Dro</u>**

Rydym yn ysgrifennu atoch i roi gwybod y bydd y gangen uchod, yn anffodus, yn cau dros dro ddydd Llun 16 Gorffennaf 2018 – am fod y Postfeistr yn ymddiswyddo ac am na fydd yr adeilad ar gael wedyn i'w ddefnyddio'n Swyddfa Bost.

Wrth i ni ofalu am rwydwaith o wasanaethau Swyddfa'r Post ledled y DG, mae gennym gyfrifoldeb i wneud yn siŵr fod pob gwasanaeth yn gwneud y defnydd gorau posibl o’r adnoddau, ynghyd â sicrhau bod cwsmeriaid yn dal i allu cael mynediad i’n cynhyrchion a gwasanaethau. Rwy'n addo ichi y byddwn yn dal i wneud ein gorau i chwilio am ateb a fydd yn darparu gwasanaeth Swyddfa'r Post i'r gymuned.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am hyn, byddwch cystal ag ysgrifennu ataf trwy'r Tîm Ymgynghori Cenedlaethol yn y cyfeiriad a nodir ar ddiwedd y llythyr. Sylwch, os gwelwch yn dda, na fydd eich sylwadau yn cael eu cadw'n gyfrinachol oni fyddwch yn gofyn yn benodol i ni wneud hynny wrth nodi'n glir arnynt: “Yn Gyfrinachol/In Confidence”.

Byddai unrhyw newidiadau i’r ddarpariaeth gwasanaeth yn cael eu trafod yn unol â’n Hegwyddorion Ymgysylltu â’r Gymuned. Mae rhagor o wybodaeth am yr Egwyddorion hyn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddai o gymorth pe baech yn gallu rhannu’r wybodaeth hon ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn eich cymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a’ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy’n digwydd i’r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

Hoffem ymddiheuro am yr anhwylustod a allai ddigwydd oherwydd y cau dros dro. Gobeithiwn y bydd ein cwsmeriaid yn dal i ddefnyddio Swyddfa Bost. Mae’r manylion llawn am wasanaethau eraill Swyddfa'r Post yn yr ardal ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn ysgrifennu atoch eto unwaith y bydd gennyf unrhyw newyddion am ein cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Yr eiddoch yn gywir

Jeremy Kiff

**Jeremy Kiff**
**Rheolwr Ardal dros Newidiadau i’r Rhwydwaith**

Sut i gysylltu â ni:
comments@postoffice.co.uk
postofficeviews.co.uk
FREEPOST Your Comments

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch sut y gwnawn hyn ar ein gwefan yn [postoffice.co.uk/privacy](postoffice.co.uk/privacy)

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa’r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ.
Mae Swyddfa’r Post a logo Swyddfa’r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa’r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

***Cafodd yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

Mae copi llawn o'r Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ar gael ar postofficeviews.co.uk

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb.

**Canghennau eraill:**

**Swyddfa Bost Cilgeti**
Heol Caerfyrddin
Cilgeti
SA68 0UF

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 09:00 – 17:30 |
| Mawrth | 09:00 – 17:30 |
| Mercher | 09:00 – 17:30 |
| Iau | 09:00 – 17:30 |
| Gwener | 09:00 – 17:30 |
| Sadwrn | 09:00 – 17:30 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal â Threth y Car, dewis cynhwysfawr o Arian Teithio, Gwirio ac Anfon Pasbort ac Yswiriant Teithio Ar Gais.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae modd parcio gerllaw wrth ymyl y ffordd. Mae bysiau lleol yn rhedeg yn y cyffiniau.

**Pellter**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 1.2 milltir o gangen Pentlepoir, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**Swyddfa Bost Saundersfoot**
The Strand
Saundersfoot
SA69 9ES

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Llun | 07:30 – 22:30 |
| Mawrth | 07:30 – 22:30 |
| Mercher | 07:30 – 22:30 |
| Iau | 07:30 – 22:30 |
| Gwener | 07:30 – 22:30 |
| Sadwrn | 07:30 – 22:30 |
| Sul | 08:00 – 22:30 |

**Gwasanaethau**
Bydd yr un dewis o wasanaethau ar gael o hyd, yn ogystal a Threth y Car ac Arian Teithio mewn Doleri, ond nid y Loteri Genedlaethol.

**Mynediad a chyfleusterau**
Mae gan y gangen hon ddrws llydan a mynediad gwastad wrth y fynedfa.

**Trafnidiaeth/parcio**
Mae yna barcio am amser cyfyngedig ar ymyl y ffordd gerllaw. Mae bysiau yn rhedeg yn aml rhwng cangen Pentlepoir a'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn. Mae'r arhosfan bysiau agosaf 180 metr i ffwrdd.

**Pellter**
Mae'r gwasanaeth Swyddfa'r Post hwn tua 1.8 milltir o gangen Pentlepoir, ar hyd tir amrywiol ei natur.

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post**

**Beth yw Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned?**
Mae Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned yn ganllawiau rydym yn eu dilyn. Maent yn esbonio sut, a phryd, y byddwn yn dweud wrthych am newidiadau i'ch gwasanaethau Swyddfa'r Post lleol. Rydym wedi gweithio ar y canllawiau hyn gyda'r corff gwarchod statudol annibynnol i ddefnyddwyr - y Cyngor ar Bopeth a Chyngor ar Bopeth yr Alban ym Mhrydain, a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon.

**Pa fath o newidiadau sy'n cael eu cynnwys?**
Gwybodaeth ynglŷn â phryd rydym yn bwriadu symud neu gau un o'n canghennau neu wasanaethau allgymorth. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â phan fo cangen wedi cau'n annisgwyl oherwydd llifogydd neu dân, er enghraifft.

**Pwy sy'n clywed gennym?**
Chi a'ch cynrychiolwyr etholedig lleol (fel ASau, awdurdodau lleol neu gynghorau).

**Sut fyddwn yn dweud wrthych am yr hyn sy'n digwydd**
Os oes newid– fel agor cangen newydd, cau cangen dros dro neu newid yr oriau agor – yna byddwn yn rhoi gwybod ichi trwy osod posteri yn y Swyddfa Bost. Os ydym yn bwriadu symud Swyddfa Bost, neu gau cangen yn barhaol, yna byddwn yn gosod posteri ac yn cyflwyno llythyrau yn y gangen yn ogystal ag ysgrifennu at eich cynrychiolwyr. Bydd gennym ddatganiad newyddion a bydd yn hawdd cael hyd i'r wybodaeth berthnasol ar ein gwefan.

**Pa mor hir fydd hyn yn ei gymryd?**
Rhoddwn wybod i chi am unrhyw newidiadau cyn gynted â phosibl. Ambell waith, bydd y newid allan o'n dwylo ond ceisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am yr hyn sy'n digwydd. Gwnawn ein gorau i wneud yn siŵr eich bod yn cael pedair wythnos o rybudd cyn bod unrhyw beth yn digwydd. Os byddwn yn ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd neu'n masnachfreintio cangen â rheolaeth uniongyrchol yn ei lleoliad cyfredol, byddwn yn gofyn am eich sylwadau. Os ydym yn mynd i adleoli neu gau Swyddfa Bost yn barhaol, ceir 'cyfnod ymgynghori' a fydd yn para am chwe wythnos. Mae hyn yn golygu y bydd gennych amser i rannu eich barn â ni.

**Mae'n hawdd rhoi gwybod i ni am yr hyn rydych yn ei feddwl ...**
Rydym eisiau clywed eich barn chi a'ch cynrychiolwyr am unrhyw newid. I wneud yn siŵr ei bod yn hawdd i chi roi gwybod i ni, gallwch weld ein holl fanylion cyswllt ar ein posteri a llythyrau. Gallwch gysylltu â ni trwy ein Canolfan Ymgynghori neu drwy ebost neu lythyr neu dros y ffôn.

**Sut fyddwch chi'n cael gwybod am ein cynlluniau terfynol?**
Rhoddwn wybod i chi mewn cynifer o ffyrdd â phosibl. Bydd yna bosteri yn y gangen neu'n lleol i roi gwybod i gwsmeriaid am yr hyn sy'n digwydd. Byddwn hefyd yn ysgrifennu at gynrychiolwyr lleol a bydd yr wybodaeth ar gael ar ein gwefan. Os rhowch wybod i ni beth yw'ch barn, gwnawn yn siŵr eich bod yn gwybod am ein cynlluniau terfynol, naill ai ar ein Canolfan Ymgynghori neu drwy ysgrifennu atoch neu mewn swyddfeydd post.

**Beth allwch ei wneud os ydych yn credu nad ydym wedi dilyn yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned?**
Os ydych yn credu nad ydym wedi dilyn yr Egwyddorion, cysylltwch â ni i esbonio pam.

I weld yr Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned yn llawn, ewch i'n gwefan yn postofficeviews.co.uk.